# Y RISG O GYFLWYNO CLWY AFFRICANAIDD Y MOCH I'R DU YN CYNYDDU:

## ⚠ CYNGOR PWYSIG I BOB CLUDWR

### Beth yw Clwy Affricanaidd y Moch?

- ⚠ Clefyd sy'n cael ei achosi gan feirws yw clwy Affricanaidd y moch, ac mae'n lladd moch domestig a baeddod gwyllt.
- ⚠ Mae Clwy Affricanaidd y Moch yn lledaenu trwy gyfandir Ewrop ac mae'r risg y gallai ddod i'r DU wedi cynyddu.
- ⚠ Mae lefel y feirws yng ngwaed a charcasau baeddod gwyllt â'r clefyd yn uchel iawn, ac mae'n bresennol yn eu baw hefyd.
- ⚠ Gall feirws Clwy Affricanaidd y Moch oroesi am fisoedd, neu hyd yn oed flynyddoedd, mewn cig mwg, sych, wedi'i halltu neu wedi'i rewi o foch neu faeddod gwyllt â'r clefyd.
- ⚠ Pe bai'r clefyd yn cael ei gyflwyno i foch neu faeddod gwyllt y DU byddai'n cael effaith aruthrol ar eu hiechyd ac ar ddiwydiant moch y wlad.
- ⚠ Pe bai'r clefyd yn cael ei gyflwyno i foch domestig neu faeddod gwyllt y DU byddai'n cael effaith aruthrol ar eu hiechyd ac ar ddiwydiant moch y wlad.



### Beth ddylai cludwyr ei wneud?

- ⚠ **PEIDIWCH** â dod â phorc, cig baedd gwyllt neu gynnyrch cig yn ôl i'r DU o ardaloedd â'r clefyd
- ⚠ **DEFNYDDIWCH FIN DIOGEL** i waredu gwastraff bwyd – osgowch ollwng cynnyrch cig.
- ⚠ **PEIDIWCH BYTH** â bwydo cig neu gynnyrch cig i foch neu faeddod gwyllt – **MAE'N ANGHYFREITHLON.**
- ⚠ **OSGOWCH GYFFWRDD** â baedd gwyllt sy'n sâl neu farw, a'r ardal o'i amgylch.




### Os ydych chi'n cludo da byw:

- ⚠ Byddwch yn ymwybodol y gallwch ddod â haint Clwy Affricanaidd y Moch yn ôl yn anfwriadol os yw eich dillad, esgidiau neu gyfarpar yn cael eu halogi yn uniongyrchol gan foch neu faeddod gwyllt, neu'n anuniongyrchol o'r amgylchedd.
- ⚠ Mae hi'n hanfodol bwysig eich bod chi'n dilyn y ddeddfwriaeth cludo anifeiliaid a chanllawiau glanhau a diheintio eich cwmni.
- ⚠ I gael rhagor o wybodaeth, dilynwch y canllaw glanhau a diheintio dros y dudalen, a gweler: **pork.ahdb.org.uk/media/2727/vehicle_factsheet.pdf**
- ⚠ Defnyddiwch ddiheintydd sydd wedi'i gymeradwyo gan y llywodraeth ar raddfa Gorchymyn Cyffredinol – sydd wedi'u rhestru ar **gov.uk**



Animal & Plant Health Agency
Department for Environment Food & Rural Affairs
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs www.daera-ni.gov.uk
Scottish Government Riaghaltas na h-Alba gov.scot
WG36870

# Y RISG O GYFLWYNO CLWY AFFRICANAIDD Y MOCH I'R DU YN CYNYDDU:


## ⚠ CYNGOR PWYSIG I BOB CLUDWR

### SUT I LANHAU A DIHEINTIO CERBYDAU CLUDO MOCH

#### SYCHLANHAU

**CAM 1**

Gwisgwch gyfarpar diogelu personol priodol (gorchuddwisg, amddiffynnydd llygaid personol, esgidiau a menig)




**CAM 2**

Gan ddechrau ar y dec uchaf, crafwch a brwsio'r waliau ochr, y giatiau gwahanu a llawr y trelar




**CAM 3**

Crafwch/brwsiwch lifft ôl y trelar



**CAM 4**


Tynnwch unrhyw fwd, gwellt ac ati o'r olwynion, bwâu olwyn, gardiau olwynion a siasis sydd ar ddangos




#### DIHEINTIO

**CAM 1**

Gwisgwch gyfarpar diogelu personol priodol (gorchuddwisg, amddiffynnydd llygaid personol, esgidiau a menig)




**CAM 2**



Y tu allan, dechreuwch yn y top a gweithiwch i lawr gan dalu sylw i'r olwynion, bwâu, gardiau olwynion ac oddi tan y cerbyd


**CAM 3**

Y tu mewn, dechreuwch ar y dec uchaf a gweithiwch i lawr gan ddiheintio'r nenfwd, y waliau ochr, y gwahanfuriau, y lloriau a'r tinbren



**CAM 4**


Golchwch holl gyfarpar, offer a blwch cludo'r cerbyd




#### GOLCHI Â GLANEDYDD A DŴR DAN BWYSEDD UCHEL

**CAM 1**

Gwlychwch yr holl arwynebau allanol â hylif glanhau cryf



**CAM 2**



Glanhewch y tu allan o'r top i'r gwaelod, gan dalu sylw i'r olwynion, bwâu a'r gardiau olwynion

**CAM 3**

Y tu mewn, gwlychwch y nenfwd, y waliau ochr, y giatiau gwahanu a llawr y deciau top a gwaelod




**CAM 4**

Golchwch y lifft ôl a'r giatiau'n drylwyr




**CAM 5**

Golchwch holl gyfarpar, offer a blwch cludo'r cerbyd



**CAM 6**

Gadewch hylif glanedydd ar y cerbyd am o leiaf 20 munud er mwyn iddo ymdreiddio i'r baw a'i dynnu





**CAM 7**

Golchwch yr holl arwynebau a chyfarpar â dŵr glân dan bwysedd uchel



**CAM 8**


Archwiliwch yr holl arwynebau mewnol ac allanol i wneud yn siŵr eu bod yn hollol lân



#### DIHEINTIO'R CAB A'R CAMAU OLAF

**CAM 1**

Tynnwch y matiau a brwsiwch unrhyw ddarnau a deunydd organig i mewn i fag sbwriel i'w gwaredu




**CAM 2**

Golchwch y llawr yn y cab, y matiau a phedalau'r cerbyd




**CAM 3**

Defnyddiwch gadach glân wedi'i socian mewn hylif diheintio i lanhau llawr y cab, y matiau a'r pedalau llawr



**CAM 4**

Parciwch y cerbyd ar lethr i'w ddraenio a'i sychu




**CAM 5**

Unwaith y bydd y cerbyd wedi'i symud oddi yno, golchwch unrhyw beth sydd ar ôl o'r ardal



**CAM 6**

Diheintiwch eich troswisg a'ch esgidiau



⚠ Defnyddiwch ddiheintydd sydd wedi'i gymeradwyo gan y llywodraeth ar raddfa Gorchymyn Cyffredinol – sydd wedi'u rhestru ar **gov.uk**

Diolch i Lanxess am ganiatâd i ail-gynhyrchu'r graffigwaith

Animal & Plant Health Agency
Department for Environment Food & Rural Affairs
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs www.daera-ni.gov.uk
Scottish Government Riaghaltas na h-Alba gov.scot

WG36870